

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mehefin 11eg, 2015 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Ifor W Davies, (Cadeirydd); Marian Evans, (Is gadeirydd); Trefor Wyn Jones; Dafydd Williams; Aled Lloyd Evans; William Ifor Hughes; Anwen Jones; Brian W Ifans; Elis Gwyn Jones; John Williams a'r Clerc.

1. Arwyddwyd Datganiadau Derbyn Swydd; Y Cadeirydd gan y Cyngorydd Ifor W Davies a'r Is gadeirydd gan y Cyngorydd Marian Evans.
2. Ymddiheuriadau. Y Cynghorwyr Margaret Griffith; Naomi Jones; Thomas Prys Jones; Gwilym M Thomas ac Alwen Evans.
3. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar Fai 28ain, 2015 a chyfarfod Pwyllgor Amodau Gwaith y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol gyfarfu ar Fehefin 4ydd, 2015.
4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
5. Datgan buddiant personol. Y Cyngorydd Elis Gwyn Jones yn datgan diddordeb yn rhif 7 ar y rhaglen, Cais Cynllunio Cefn Uchaf, Garndolbenmaen; perthynas i'r ymgeisydd.
6. Cyngor Gwynedd.
 1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd Mis Mehefin 2015. Derbyniwyd y wybodaeth y bydd gwaith troedffordd ac ail wynebu, Adran Priffyrdd, yn Chwilog yn ystod mis Mehefin.
 2. Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol; Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ardal Dwyfor) Cyfyngiad Cyflymder 30 40 a 50mya 2015. Derbyniwyd er gwybodaeth.
 3. Trafnidiaeth a Gofal Stryd; Swyddog Cludiant Cyhoeddus a Chymunedol, Gwasanaeth bws rhif 12 ac ymateb cwmni Clynnog a Trefor. Derbyniwyd y wybodaeth bod gwasanaeth rhif 12 yn cael ei weithredu ar sail fasnachol sef yn annibynnol ac heb gymhorthdal gan y trethdalwr sy'n golygu nad oes gan Gyngor Gwynedd reolaeth o'r gwasanaeth. Ymatebodd cwmni Clynnog a Trefor bod eu gyrrwyr hwy dan rybuddiaeth i droi mewn i safle lloches bws Maes Myrddin, Chwilog bob tro ac y byddant yn falch o gael manylion y dyddiad a'r amser os bydd cwyn eto, gan eu bod yn rhannu'r gwasanaeth gyda gweithredwr arall.
7. Cyngor Gwynedd – Cais Cynllunio yn y Gymuned:

Cais rhif C15/0524/41/LL – Newid tir amaethyddol yn faes carafanau teithiol ar gyfer 28 uned ynghyd â ffordd fynediad newydd, adeilad cyfleusterau a gosod tanc septic; Cefn Uchaf, Garndolbenmaen. Penderfynwyd nad yw'r Cyngor yn cefnogi'r cais yma ar sail effaith ar ffordd gul brysur am y Ganolfan Ailgylchu.
8. Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref:
 1. Cyhoeddi ymlymiad gwleidyddol.
 2. Cofrestru buddiannau aelodau. Canllaw a ffurflen yn amgaedig.Penderfynwyd gadael ar y bwrdd nes y ceir arweiniad gan Un Llais Cymru.

9. Materion yn y gymuned.

Chwilog.

Llanystumdwy

Pencaenewydd

10. Gohebiaeth oddi wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd; Partneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd, Polisi Gosod Tai Cyffredin. Penderfynwyd ysgrifennu i wrthwynebu'r system bwyntiau a gofyn iddynt egluro sut mae'r system bwyntiau yn cael ei gweithredu.

11. Materion sydd heb gael ymateb ar ôl gohebu yn eu cylch ers dros ddau fis. Mae arwyddion ffordd am Langybi ger Cae Brwyn ac am Ynys ger Capel y Beirdd yn dal heb gael eu gosod. Penderfynwyd gofyn i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd osod arwyddion rhag blaen.

12. Sefydlu Pwyllgor Cynllun Busnes. Penderfynwyd dewis y Cynghorwyr Ifor W Davies, Ward Llanybi; Marian Evans, Ward Llanystumdwy; Anwen Jones, Ward Rhoslan; Dafydd Williams ac Aled Lloyd Evans, Ward Llanarmon.

13. Grŵp Cynefin; Grant Datblybu Cymunedol Grŵp Cynefin. Penderfynwyd y gallai hwn gael sylw yn y Pwyllgor Cynllun Busnes. Yn ogystal penderfynwyd anfon yr ohebiaeth ymlaen i'r Ffynnon.

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

.

.